Gofynnwch am/*Ask for* **Deborah Weston**
Ein Cyf/*Our Ref* **DW/ASD**
Eich Cyf/*Your Ref*
Ffôn/*Tel* **01633 210631**
Rhif Uniongyrchol/*Direct* **01633 210631**
*DX*
E-Bost/*E-Mail* school.reorg@newport.gov.uk

**Gwasanaeth Addysg**
**Education Service**

Canolfan Ddinesig/Civic Centre
Casnewydd/Newport
De Cymru/South Wales
NP20 4UR

Newport CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS Casnewydd

23 Mehefin 2023

Annwyl Randdeiliad

**Cynnig i sefydlu canolfan arbenigol ar gyfer disgyblion ag Anhwylder Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Uwchradd Llan-wern o fis Medi 2023.**

Mae'r broses ymgynghori statudol lawn ar y cynnig gan Gyngor Dinas Casnewydd i sefydlu canolfan arbenigol ag 20 o leoedd ar gyfer disgyblion ag Anhwylder Sbectrwm Awtistig o fis Medi 2023, wedi dod i ben bellach.

Ystyriodd Aelod Cabinet dros Addysg a Blynyddoedd Cynnar Cyngor Dinas Casnewydd yr holl safbwyntiau a fynegwyd ac ymatebion a ddaeth i law yn ystod y broses ymgynghori ffurfiol ac mae wedi penderfynu bwrw ymlaen â’r cynnig. Felly, cyhoeddwyd Hysbysiad Statudol ar 30 Mawrth 2023 am gyfnod o 36 diwrnod a ddaeth i ben ar 5 Mai 2023.

Ni ddaeth unrhyw wrthwynebiad i law yn ystod y cam hysbysiad statudol felly penderfynwyd yn derfynol gan Aelod Cabinet dros Addysg a Blynyddoedd Cynnar Cyngor Dinas Casnewydd. Mae’n bleser gennyf gadarnhau y caiff y cynnig ei weithredu yn unol â’r amlinelliad a nodwyd yn yr ymgynghoriad a’r hysbysiad statudol o fis Medi 2023.

Mae rhagor o wybodaeth ar wefan y Cyngor yn https://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/Llanwern-High-ASD-base-consultation.aspx

Yn gywir

Sarah Morgan

**Sarah Morgan**
**Prif Swyddog Addysg**
**Chief Education Officer**